
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

**Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a
Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018**

RHAN 3

CARCASAU BUCHOL

Cymhwyso'r Rheoliadau hyn at weithredwyr buchol ar raddfa fach

6.—(1) Nid yw'n ofynnol i weithredwr buchol ar raddfa fach ddosbarthu carcasau buchol.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithredwr buchol ar raddfa fach nad yw'n dosbarthu carcasau buchol.

(3) Ond, os bydd gweithredwr buchol ar raddfa fach yn dewis dosbarthu carcasau buchol, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r gweithredwr hwnnw ac mewn perthynas â dosbarthu'r carcasau hynny.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gweithredwr buchol ar raddfa fach" yw gweithredwr lladd-dy cymeradwy lle y mae llai na 150 o anifeiliaid buchol llawn-dwf yn cael eu cigydda bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn.

(5) Ni fernir bod unrhyw weithredwr buchol ar raddfa fach yr oedd yn ofynnol iddo, nes i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, ddosbarthu carcasau buchol o dan Reoliadau 2011 wedi dewis gwneud hynny at ddibenion paragraff (3) am y rheswm hwnnw yn unig.

(6) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n rhwystro'r Rheoliadau hyn rhag cael eu cymhwyso at weithredwr mewn perthynas â charcasau moch, os oes moch hefyd yn cael eu cigydda yn lladd-dy'r gweithredwr hwnnw.

Awdurdodau cymwys: carcasau buchol

7.—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion—

- (a) Erthygl 12(2)(b) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau ychwanegol ar ddosbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd);
- (b) Erthyglau 13 a 14 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn ac Erthygl 14 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (hysbysu prisiau'r farchnad a chyfrifo pris cyfartalog pob dosbarth);
- (c) Erthygl 17(2) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau atodol ar hysbysu prisiau marchnad carcasau);
- (d) Erthygl 4(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (gwneud a chadw adroddiadau ar gyfer gwiriadau yn y fan a'r lle).

(2) Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y canlynol—

- (a) Erthygl 10 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (awdurdodi dulliau graddio awtomataidd);
- (b) Erthygl 25 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (hysbysu'r Comisiwn);

- (c) gwiriadau yn y fan a'r lle, yn unol â'r disgrifiad o "on-the-spot checks" yn Erthyglau 2 a 3 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn.

Trwydded i ymgymryd â dosbarthu

8.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu trwydded i ymgymryd â dosbarthu carcassau buchol drwy edrych arnynt i unrhyw berson sy'n gwneud cais am drwydded o'r fath ac sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r dosbarthu, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y ceisydd yn berson addas a phriodol i ymgymryd â dosbarthu carcassau buchol.

(2) Caniateir i'r drwydded gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddibenion paragraff (1).

(3) Yn ychwanegol at y pŵer i ddirymu trwydded yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (dosbarthiadau, cyflwyniadau neu adnabyddiadau anghywir), caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu trwydded a ganiatawyd i berson o dan y rheoliad hwn—

- (a) os yw'r person wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau neu amodau'r drwydded honno; neu
- (b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r person sy'n dal y drwydded honno yn berson addas a phriodol mwyach i ymgymryd â dosbarthu carcassau buchol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn, a'r penderfyniad hwnnw'n ysgogi hawl i apelio o dan reoliad 10, rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) hysbysu'r person am y penderfyniad mewn ysgrifen;
- (b) rhoi'r rhesymau; ac
- (c) esbonio bod yna hawl i apelio i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

Trwydded ar gyfer graddio awtomataidd

9.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu trwydded i weithredwr lladd-dy cymeradwy i awdurdodi defnyddio offer graddio awtomataidd i ddosbarthu carcassau buchol yn y lladd-dy hwnnw, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddai'r offer a'i ddull gweithredu yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan Erthyglau 9(b) a 10(2) (o'u darllen gyda Rhan A o Atodiad IV) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn.

(2) Caniateir i'r drwydded gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae eu hangen er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hynny.

(3) Yn ychwanegol at y pŵer i ddirymu trwydded yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn, caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu trwydded a ganiatawyd i weithredwr o dan y rheoliad hwn—

- (a) os yw'r gweithredwr wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau neu amodau'r drwydded; neu
- (b) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r offer graddio awtomataidd mwyach yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, pa un ai am resymau sy'n gysylltiedig â'r offer ei hun neu'r modd y defnyddir yr offer gan y gweithredwr.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn, a'r penderfyniad hwnnw'n ysgogi hawl i apelio o dan reoliad 10, rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) hysbysu'r person am y penderfyniad mewn ysgrifen;

- (b) rhoi'r rhesymau; ac
- (c) esbonio bod yna hawl i apelio i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

Apelau ynghylch trwyddedau

10.—(1) Caniateir i berson apelio yn erbyn—

- (a) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cais gan y person hwnnw am drwydded o dan reoliad 8 neu 9;
- (b) teler neu amod a osodwyd gan Weinidogion Cymru mewn trwydded a ganiatawyd i'r person hwnnw o dan reoliad 8 neu 9; neu
- (c) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i atal dros dro neu ddirymu trwydded o dan reoliad 8 neu 9.

(2) Rhaid i'r apêl gael ei gwneud i berson a benodir at y diben gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person a benodir ynglŷn â'r penderfyniad.

(4) Rhaid i'r person a benodir ystyried yr apêl ac unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru, a rhaid iddo gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru gyda'i gasgliadau ar yr apêl ac argymhelliad ar sut y dylai'r mater gael ei benderfynu'n derfynol gan Weinidogion Cymru.

(5) Wedyn rhaid i Weinidogion Cymru gyrraedd penderfyniad terfynol, a hysbysu'r person a wnaeth yr apêl am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto.

Cofnodion: carcassau buchol

11.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy cymeradwy gadw cofnod o'r manylion a bennir yn Atodlen 3 ynglŷn â phob carcass buchol a ddosberthir yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Rhaid i'r gweithredwr ddal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y mae'r cofnod yn berthynol iddi.